Disgrifiad Swydd

MANYLION Y SWYDD

Teitl y Swydd	Gweithiwr Achos Therapi Galwedigaethol				
Gradd	5	**Rhif Gwerthuso'r Swydd:**	4301	**Dyddiad Gwerthuso/Adolygu**	Ebrill 2025

Gwasanaeth	Gwasanaethau Oedolion				
Tîm Gwasanaeth	Therapi Galwedigaethol				
Yn Atebol i	Rheolwr Tîm Therapi Galwedigaethol				
Meysydd Cyfrifoldeb	Therapi Galwedigaethol				
Nifer y staff dan ofal deiliad y swydd	Dim	**Cyfyngiadau Gwleidyddol** *(Cyfeiriwch at yr adran amodau arbennig)*	Nac oes	**Angen Gwiriad Gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**	Oes
Ffurflen Gwerthuso Swydd (i'w llenwi gan reolwr yn unig wrth greu swydd newydd neu ddiwygio rôl bresennol)					

DIBEN Y SWYDD

Asesu anghenion a chymhwysedd pobl sy'n gorfforol anabl a'u gofalwyr a all wneud cais neu gael eu hatgyfeirio am asesiad o dan ddarpariaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

MEYSYDD CANLYNIADAU ALLWEDDOL

1. Ymateb i ymholiadau i'r gwasanaeth dyletswydd Therapi Galwedigaethol Cymunedol integredig.
2. Rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl mewn perthynas â gofal a chymorth i gael mynediad at ofal a chymorth mewn perthynas â defnyddio cymhorthion, addasiadau, technoleg gynorthwyol a phecyn gofal lefel isel.
3. Gweithredu'n briodol ar dderbyn atgyfeiriadau a rheoli achosion hunan-ddyrannu o fewn fframweithiau cytunedig a thasgau gweinyddol cysylltiedig o fewn fframweithiau cytunedig, mewn modd effeithlon ac effeithiol.
4. Ymgysylltu a grymuso pobl, eu gofalwyr a'u rhwydweithiau cymorth a chael adborth er mwyn sicrhau ymyriadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
5. Cynnal asesiad o angen gan gynnwys asesiadau risg priodol, cymhwyso barn o fewn paramedrau clinigol penodol i ragnodi ac adolygu offer anghymleth ar gyfer unigolion a'u gofalwyr yn y gymuned, yn unol â pholisi Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Integredig Gwent Gyfan (GWICES).
6. Cynnal yr asesiad o angen gan gynnwys asesiadau risg priodol, cymhwyso barn o fewn paramedrau clinigol penodol i argymell ac adolygu addasiadau bach a chanolig anghymleth ar gyfer unigolion a'u gofalwyr yn y gymuned yn unol â safonau Addasiadau Tai Cymru 2019.
7. Darparu safon ansawdd asesu ac ysgrifennu adroddiadau a chynnal cofnodi achosion cywir gan ddefnyddio'r feddalwedd briodol yn ôl yr angen.
8. Cysylltu â staff o asiantaethau lluosog lle bo hynny'n briodol a gyda chaniatâd unigolion a'u gofalwyr i gwblhau asesiad anghenion cynhwysfawr.
9. Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a gweithgareddau tîm angenrheidiol a phriodol.
10. Cefnogi'r broses o sefydlu myfyrwyr Therapi Galwedigaethol a dechreuwyr newydd.

11. Bod yn ymrwymedig i ddatblygiad personol a mynychu hyfforddiant yn ôl y gofyn gan gynnwys unrhyw hyfforddiant gorfodol a nodwyd ar gyfer y swydd hon.

12. Mynychu gweithdai offer ac addasiadau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynhyrchion newydd, eu defnydd a materion diogelwch.

13. Cyflawni holl swyddogaethau'r swydd yn gyson â deddfwriaeth gyfredol ac o fewn y polisïau, y safonau a'r gweithdrefnau a sefydlwyd gan y Cyngor.

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn nodi prif feysydd canlyniadau'r swydd ar y dyddiad pan gafodd ei baratoi. Gall dyletswyddau o'r fath amrywio o bryd i'w gilydd heb newid nodweddion cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb. Mae amrywiadau o'r fath yn beth cyffredin ac ni allant gyfiawnhau ailystyried gradd y swydd.

MANYLEB PERSON		
	HANFODOL	**DYMUNOL**
Cymwysterau	• Wedi'i addysgu i safon Lefel 'A 'neu feddu ar Gymhwyster Gofal Cymdeithasol	• Cliciwch yma i gynnwys testun.
Gwybodaeth	• Meddu ar ddealltwriaeth neu allu i feithrin dealltwriaeth o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).	• Dealltwriaeth sylfaenol o systemau technoleg gynorthwyol a defnydd o'r rhain i hyrwyddo annibyniaeth. • Cli
Profiad	• Gallu dangos profiad o weithio gydag Oedolion mewn lleoliad gofal cymdeithasol neu ymgymryd â gwaith gwirfoddol gydag oedolion. • Dangos dealltwriaeth o anghenion oedolion sy'n agored i niwed.	• Meddu ar brofiad o asesu ar gyfer addasiadau bach a chanolig a'u hargymell.
Addasrwydd a Sgiliau	• Gallu gweithio'n effeithiol mewn amgylchedd proffesiynol cymhleth. • Gallu rheoli gofynion cystadleuol. • Gallu rheoli llwyth achosion. • Gallu cyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig â chydweithwyr, asiantaethau allanol a phobl/gofalwyr i wella darpariaeth gwasanaethau lleol. • Ymrwymiad i hyfforddiant a datblygiad personol. • Gallu gweithio ar eich pen eich hun a defnyddio menter o fewn ffiniau a osodwyd gan Reolwr y Tîm/Uwch ymarferydd. • Y gallu i ddatrys problemau a darparu atebion i wella canlyniadau cadarnhaol.	• Cliciwch yma i gynnwys testun.

YMDDYGIAD DISGWYLIEDIG A GWERTHOEDD
Annog a chefnogi eraill fel rhan o dîm. Rhoi arweiniad a chyngor i eraill. Tyfu perthnasoedd gweithio cadarnhaol. Rhannu arfer gorau a chyfrannu at ddatblygu arferion. Cynnal agwedd realistig a chadarnhaol tuag at newid. Cyfathrebu'n agored, gan fod yn syml gyda phobl i ennyn ymddiriedaeth a hyder. Defnyddio menter i ddilyn gweithdrefnau i wneud penderfyniadau priodol. Rhowch adborth lle gellir gwella'r rhain. Myfyrio yn onest ar fy arddull bersonol a'i effaith ar eraill a datblygu fy sgiliau fel y gallaf addasu fy steil fel y bo'n briodol.

Cyfle Cyfartal	
Cyfle Cyfartal	Byddwch yn deall ac yn dangos parodrwydd i hyrwyddo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd.

Gofynion o Ran y Gymraeg

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd yn cefnogi staff wrth ddarparu hyn. Rhaid asesu pob swydd mewn perthynas â gofynion yr Iaith Gymraeg a bydd naill ai'n Gymraeg Hanfodol neu'n Ddymunol.

Gofynion Cymraeg ar gyfer y swydd hon (Gweler Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer lefelau sgiliau)

Sgiliau Iaith Gymraeg		Dymunol			
Sgiliau Gwrando / Siarad	3	Sgiliau Ysgrifennu	3	Sgiliau Darllen / Deall	3

Amodau Arbennig

Datgeliad Manwl Gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Mae'r swydd hon yn golygu eich bod yn dod i gysylltiad â phlant, yr henoed, pobl sâl neu bobl anabl gryn dipyn. Mae'r Awdurdod felly yn ei gwneud yn ofynnol, yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1972 (Eithriadau) 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, i chi ddatgelu unrhyw gollfarnau troseddol, gorchmynion rhwymo i gadw'r heddwch neu rybuddion, gan gynnwys y rheini a gaiff eu hystyried fel arfer fel rhai wedi'u disbyddu. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais - caiff eich ffurflen ei dychwelyd os na fydd yr adran hon wedi'i chwblhau. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn destun Datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dylai gwybodaeth bellach am Ddatgeliad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a sut mae'r Cyngor yn ymdrin â recriwtio cyn-droseddwyr ddilyn y ffurflen gais, os na fydd, cysylltwch â'r unigolyn a enwyd yn yr hysbyseb.
Yn Gyfyngedig yn Wleidyddol	Ddim yn Berthnasol
Arall (gan gynnwys anghenion corfforol ac amodau gweithio)	Cliciwch yma i gynnwys testun.

Hyfforddiant

Ymgymryd â'r holl hyfforddiant gofynnol sy'n berthnasol i'r rôl a bod yn gyfrifol am eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun.

I gael rhagor o wybodaeth am weithio i Gyngor Dinas Casnewydd, ewch i www.casnewydd.gov.uk neu cliciwch yma.